

**Testun argymhellion (9.82) ar gyfer rdSAP i'w defnyddio ar yr EPC  
18 Gorffennaf 2008**

Nodyn. Mae'r argymhellion hyn yn cael eu codi gan feddalwedd trwy ddefnyddio rhif yr argymhelliad. Lle mae angen addasu'r testun ar gyfer amgylchiadau gwahanol fe'i hailadroddir gyda rhif argymhelliad gwahanol.

<b>Rhif Argym.</b>	<b>Argymhelliad (tudalen 4)</b>	<b>Testun yr Argymhelliad (tudalen 5)</b>
1	Inswleiddio'r silindr dŵr poeth gyda siaced 160 mm	<b>Inswleiddiad silindr dŵr poeth</b> Bydd gosod siaced silindr o drwch 160 mm o amgylch y silindr dŵr poeth yn helpu i gadw'r dŵr ar y tymheredd gofynnol; bydd hyn yn gostwng y swm o ynni a ddefnyddir ac yn lleihau'r biliau tanwydd. Haenen inswleiddio sydd yn ffitio o amgylch y silindr dŵr poeth yw siaced silindr. Siaced 160 mm o drwch (neu dwy siaced 80 mm o drwch) fyddai orau yn amodol ar gyfyngiadau gofod, ond byddai siaced o drwch 80 mm yn welliant arwyddocaol os oes yna gyfyngiadau gofod. Dylai'r siaced gael ei ffitio dros unrhyw thermostat sydd wedi ei glampio i'r silindr. Dylai'r pibellau dŵr poeth sydd yn dod o'r silindr gael eu hinswleiddio hefyd, trwy ddefnyddio inswleiddiad pibell sydd wedi ei ffurfio'n barod, o drwch hyd at 50 mm, neu sy'n addas ar gyfer y gofod sydd ar gael, am cyn belled ag y gellir gwneud hynny i leihau colledion yn yr haf. Gellir prynu'r holl ddeunydd yma mewn siopau DIY ac fe all unigolyn medrus â diddordeb brwd mewn DIY ei osod.
2	Cynyddu inswleiddiad dŵr poeth i 160 mm	<b>Inswleiddiad silindr dŵr poeth</b> Bydd cynyddu trwch yr inswleiddiad presennol i hyd at 160 mm o amgylch y silindr dŵr poeth yn helpu i gadw'r dŵr ar y tymheredd gofynnol; bydd hyn yn gostwng y swm o ynni a ddefnyddir ac yn lleihau'r biliau tanwydd. Haenen inswleiddio sydd yn ffitio o amgylch y silindr dŵr poeth yw siaced silindr. Dylai'r siaced gael ei ffitio dros yr inswleiddiad presennol a thros unrhyw thermostat sydd wedi ei glampio i'r silindr. Dylai'r pibellau dŵr poeth sydd yn dod o'r silindr gael eu hinswleiddio hefyd, trwy ddefnyddio inswleiddiad pibell sydd wedi ei ffurfio'n barod, o drwch hyd at 50 mm, neu sy'n addas ar gyfer y gofod sydd ar gael, am cyn belled ag y gellir gwneud hynny i leihau colledion yn yr haf. Gellir prynu'r holl ddeunydd yma mewn siopau DIY ac fe all unigolyn medrus â diddordeb brwd mewn DIY ei osod.

Rhif Argym.	Argymhelliad (tudalen 4)	Testun yr Argymhelliad (tudalen 5)
3	Ychwanegu siaced 80 mm ychwanegol i'r siaced dŵr poeth	<p><b>Inswleiddiad silindr dŵr poeth</b></p> <p>Bydd cynyddu trwch yr inswleiddiad presennol drwy ychwanegu siaced silindr 80 mm o drwch o amgylch y silindr dŵr poeth yn helpu i gadw'r dŵr ar y tymheredd gofynnol; bydd hyn yn gostwng y swm o ynni a ddefnyddir a lleihau'r biliau tanwydd. Dylai'r siaced gael ei ffitio dros yr inswleiddiad sbwng presennol a thros unrhyw thermostat sydd wedi ei glampio ar y silindr. Dylai'r pibellau dŵr poeth gael eu hinswleiddio hefyd, trwy ddefnyddio inswleiddiad pibell sydd wedi ei ffurfio'n barod o drwch hyd at 50 mm, neu sy'n addas ar gyfer y gofod sydd ar gael, am cyn belled ag y gellir gwneud hynny i leihau colledion yn yr haf. Gellir prynu'r holl ddeunydd yma mewn siop DIY ac fe all unigolyn medrus â diddordeb brwd mewn DIY ei osod.</p>
4	Thermostat silindr dŵr poeth	<p><b>Thermostat silindr</b></p> <p>Mae thermostat silindr dŵr poeth yn galluogi'r bwyler i ddiffodd pan fydd y dŵr yn y silindr yn cyrraedd y tymheredd gofynnol; mae hyn yn minimeiddio'r swm o ynni sydd yn cael ei ddefnyddio ac yn gostwng biliau tanwydd. Y sensor tymheredd yw'r thermostat sydd yn danfon signal i'r bwyler pan fydd y tymheredd gofynnol wedi ei gyrraedd. I fod yn hollol effeithiol mae angen iddo gael ei leoli yn y safle cywir a'i wifro'n galed i'w le, felly dylai plymiwr neu beiriannydd gwresogi cymwys ei osod.</p>
5	Cynyddu inswleiddiad croglofft i 270 mm	<p><b>Inswleiddiad croglofft</b></p> <p>Bydd gosod inswleiddiad yn y gofod croglofft neu rhwng trawstiau pren nenfwd i drwch o 270 mm o leiaf yn lleihau'r gwres a gollir trwy'r to yn arwyddocaol; bydd hyn yn gwella'r cysur, yn lleihau defnydd ynni ac yn gostwng biliau tanwydd. Ni ddylid gosod inswleiddiad o dan unrhyw danc storio dŵr oer, a dylai unrhyw danc o'r fath gael ei inswleiddio ar ei ochrau a'i ben, a dylid gosod byrddau ar fatonau dros yr inswleiddiad i ddarparu mynediad diogel rhwng yr agoriad i'r groglofft a'r tanc dŵr oer. Gall yr inswleiddiad yma gael ei osod gan gontractwyr proffesiynol ond hefyd gan berson DIY brwdfrydig medrus. Gellir defnyddio gronnau rhydd yn hytrach na chwilt inswleiddio, gellir chwythu'r math yma o inswleiddiad i'w le a gall fod yn ddefnyddiol lle mae'r mynediad yn anodd. Rhaid i'r gofod yn y groglofft fod â gwyntylliad digonol i osgoi lleithder; mynnwch gyngor am hyn os ydych yn ansicr. Mae rhagor o wybodaeth am inswleiddio croglofftydd a manylion contractwyr lleol ar gael gan y National Insulation Association (<a href="http://www.nationalinsulationassociation.org">www.nationalinsulationassociation.org</a>).</p>

Rhif Argym.	Argymhelliad (tudalen 4)	Testun yr Argymhelliad (tudalen 5)
6	Inswleiddiad wal geudod	<p><b>Inswleiddiad wal geudod</b></p> <p>Mae inswleiddiad wal geudod, i lenwi'r twll rhwng yr haenau mewnol ac allanol o waliau allanol gyda deunydd inswleiddio, yn gostwng colledion gwres: bydd hyn yn gwella'r cysur, yn lleihau defnydd ynni ac yn gostwng biliau tanwydd. Pwmpir y deunydd inswleiddio i fewn i'r bylchau drwy dyllau bychan sydd yn cael eu drilio i mewn i'r waliau allanol, ac fe atgyweirir y tyllau wedyn. Gan y defnyddir peiriannau arbennig i lenwi'r ceudod, dylai cwmni proffesiynol wneud y gwaith yma, a dylent wneud arolwg manwl cyn cychwyn ar y gwaith i wneud yn sicr bod y math yma o inswleiddiad yn addas i'r cartref yma. Dylasant hefyd warantu'r gwaith a delio gydag unrhyw faterion rheoli adeiladu. Gellir cael gwybodaeth bellach am inswleiddio waliau ceudod a manylion gosodwyr lleol gan y National Insulation Association (<a href="http://www.nationalinsulationassociation.org.uk">www.nationalinsulationassociation.org.uk</a>).</p>
7	Inswleiddiad wal fewnol neu allanol o 50 mm	<p><b>Inswleiddiad wal fewnol neu allanol</b></p> <p>Mae inswleiddiad wal gadarn yn golygu ychwanegu haenau o inswleiddiad i arwyneb naill ai y tu mewn neu'r tu allan i waliau allanol, sydd yn gostwng colledion gwres ac sydd yn lleihau biliau tanwydd. Gan ei fod yn fwy drud nag inswleiddio waliau ceudod fe'i hargymhellir ar gyfer waliau heb geudod yn unig, neu lle na ellir llenwi ceudod am resymau technegol. Mae inswleiddiad mewnol, sydd yn cael ei adnabod fel 'dry lining' yn Saesneg, yn digwydd pan fydd haenen o inswleiddiad yn cael ei roi ar arwyneb mewnol waliau allanol; yr adeg orau i ddefnyddio'r dull yma yw pan fydd angen ail addurno a gall unigolyn medrus â diddordeb brwd mewn DIY ei osod. Golyga inswleiddiad wal gadarn allanol osod inswleiddiad a gorffeniad i atal tywydd ar y wal allanol. Gall hyn wella golwg y cartref yn enwedig lle mae'r gwaith brics neu rendro'n wael a bydd yn rhoi diogelwch tymor hir rhag y tywydd. Gellir cael gwybodaeth bellach gan y National Insulation Association (<a href="http://www.nationalinsulationassociation.org.uk">www.nationalinsulationassociation.org.uk</a>). Dylid nodi y bydd caniatâd cynllunio yn ofynnol o bosib.</p>
8	Newid ffenestri gwydr sengl am rai gwydr dwbl E-isel	<p><b>Gwydr Dwbl</b></p> <p>Gwydr dwbl yw'r term a roddir i'r system lle mae dau baen o wydr yn cael eu rhoi mewn un uned sydd wedi ei selio. Bydd newid ffenestr sydd ag un paen a gosod gwydr dwbl yn gwella cysur o fewn y cartref drwy leihau drafft a mannau oer ger ffenestri. Gall gwydr dwbl hefyd leihau sŵn, gwella diogelwch a mynd i'r afael â phroblemau anwedd. Mae Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'r gwaith yma, felly naill ai defnyddiwch contractwr sydd wedi ei gofrestru gan gynllun person cymwys<sup>1</sup> neu sicrhewch gyngor oddi wrth adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol.</p>

Rhif Argym.	Argymhelliad (tudalen 4)	Testun yr Argymhelliad (tudalen 5)
9	Gwydriad eilaidd i ffenestri gwydr sengl	<p><b>Gwydriad eilaidd</b>  Gwydriad eilaidd yw ychwanegu ail baen o wydr y tu fewn i ffenestr sydd yn bodoli eisoes. Bydd ychwanegu gwydriad eilaidd yn ychwanegu cysur yn y cartref drwy leihau drafftiau a mannau oer ger ffenestri. Gall hefyd leihau sŵn a mynd i'r afael â phroblemau anwedd. Gall unigolyn medrus â diddordeb brwd mewn DIY ei osod.</p>
10	Diogelu ffenestri gwydr sengl rhag drafft	<p><b>Diogelu rhag drafft</b>  Bydd gosod ataliwr drafft, stripiau inswleiddio o amgylch ffenestri a drysau, yn gwella cysur yn y cartref. Gellir cyflogi contractwr ond gall unigolyn medrus â diddordeb brwd mewn DIY wneud y gwaith yma.</p>
11	Uwchraddio rheolyddion gwres	<p><b>Rheolyddion gwres (rhaglennydd, thermostat ystafell a falfiau rheiddiaduron thermostatig)</b>  Byddai system wresogi yn elwa o raglennydd a thermostat ystafell i alluogi'r bwyler i ddiffodd pan nad oes angen gwres; bydd hyn yn lleihau swm yr ynni a ddefnyddir ac yn lleihau biliau tanwydd. Dylid gosod falfiau rheiddiaduron thermostatig hefyd, i alluogi tymheredd pob ystafell i gael ei reoli i fod yn addas ar gyfer anghenion unigol, gan ychwanegu at gysur a lleihau biliau gwresogi. Er enghraifft, gallant gael eu gosod i fod yn gynhesach ar gyfer y lolfa a'r ystafell ymolchi nag yn yr ystafelloedd gwely. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi cymwys osod falfiau rheiddiadur a system bwmpio lawn a'r pwmp a'r bwyler yn cael eu diffodd gan y thermostat ystafell. Dylai falfiau rheiddiadur gael eu ffitio ar bob rheiddiadur heblaw un – y rheiddiadur yn yr un ystafell â'r thermostat ystafell. Cofiwch fod angen y thermostat ystafell ynghyd â'r falfiau rheiddiadur thermostatig i alluogi'r bwyler i ddiffodd pan nad oes angen gwres.</p>
12	Uwchraddio rheolyddion gwres	<p><b>Rheolyddion gwres (thermostat ystafell a falfiau rheiddiadur thermostatig)</b>  Bydd thermostat ystafell yn cynyddu effeithlonrwydd y system wresogi drwy alluogi'r bwyler i ddiffodd pan nad oes angen gwres; bydd hyn yn lleihau swm yr ynni a ddefnyddir ac yn lleihau biliau tanwydd. Dylid gosod falfiau rheiddiadur thermostatig hefyd; i alluogi tymheredd pob ystafell i gael ei reoli i fod yn addas ar gyfer anghenion unigol, gan ychwanegu at y cysur a lleihau biliau gwresogi, os bydd drysau mewnol yn cael eu cadw ar gau. Er enghraifft, gallant gael eu gosod i fod yn gynhesach yn y lolfa a'r ystafell ymolchi nag yn yr ystafelloedd gwely. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi cymwys osod falfiau rheiddiaduron thermostatig a system bwmpio lawn a'r pwmp a'r bwyler yn cael eu diffodd gan y thermostat ystafell. Dylai falfiau rheiddiaduron thermostatig gael eu ffitio ar bob rheiddiadur heblaw am y rheiddiadur yn yr un ystafell â'r thermostat ystafell. Cofiwch fod angen y thermostat ystafell ynghyd â'r falfiau thermostatig i alluogi'r bwyler i ddiffodd pan nad oes angen unrhyw wres.</p>

Rhif Argym.	Argymhelliad (tudalen 4)	Testun yr Argymhelliad (tudalen 5)
13	Uwchraddio rheolyddion gwresogi	<p><b>Rheolyddion gwresogi (falfiau rheiddiadur thermostatig)</b></p> <p>Mae falfiau rheiddiadur thermostatig yn galluogi tymheredd pob ystafell i gael ei reoli i gwrdd ag anghenion unigol, gan ychwanegu at gysur a lleihau biliau gwresogi os bydd drysau mewnol yn cael eu cadw ar gau. Er enghraifft, gallant gael eu gosod i fod yn gynhesach yn y lolfa a'r ystafell ymolchi nag yn yr ystafelloedd gwely. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi cymwys osod falfiau rheiddiadur thermostatig. Dylai falfiau rheiddiadur thermostatig gael eu ffitio ar bob rheiddiadur heblaw'r rheiddiadur yn yr un ystafell â'r thermostat ystafell. Cofiwch fod angen y thermostat ystafell ynghyd â'r falfiau rheiddiadur thermostatig, i alluogi'r bwylwr i ddiffodd pan nad oes angen gwres.</p>
14	Uwchraddio rheolyddion gwresogi	<p><b>Rheolyddion gwresogi (thermostat ystafell)</b></p> <p>Dylai'r system wresogi fod â thermostat ystafell i alluogi'r bwylwr i ddiffodd pan nad oes angen gwres. Dylid gofyn i beiriannydd gwresogi cymwys wneud y gwaith yma. Mynnwch fod y thermostat yn diffodd y bwylwr ynghyd â'r pwmp a bod y falf rheiddiadur thermostatig yn cael ei symud oddi ar unrhyw reiddiadur yn yr un ystafell â'r thermostat.</p>
15	Uwchraddio rheolyddion gwresogi	<p><b>Rheolyddion gwresogi (rhaglennydd a falfiau rheiddiadur thermostatig)</b></p> <p>Bydd system wresogi yn elwa o gael rhaglennydd i ddarparu gwell cysur drwy reoli'r system yn awtomatig. Gall rhaglennydd cyfoes ddarparu rhaglenni amser gwahanol ar gyfer gwresogi a dŵr poeth gan ganiatáu i gyfnodau amser gwahanol gael eu pennu ar gyfer pob un, mae rhaglenni saith niwrnod hefyd yn galluogi gwresogi gwahanol a / neu batrymau dŵr poeth gwahanol i gael eu gosod ar gyfer diwrnodau gwaith a'r penwythnos a gwyliau. Dylid gosod falfiau rheiddiadur thermostatig hefyd, i alluogi tymheredd pob ystafell i gael ei reoli i ddiwallu anghenion unigol, gan ychwanegu at gysur a lleihau biliau gwresogi os bydd drysau mewnol yn cael eu cadw ar gau. Er enghraifft, gallant gael eu gosod i fod yn gynhesach yn y lolfa a'r ystafell ymolchi nag yn yr ystafelloedd gwely. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi cymwys osod system falfiau rheiddiadur thermostatig a system bwmpio lawn a'r pwmp a'r bwylwr yn cael eu diffodd gan y thermostat ystafell. Cofiwch fod angen y thermostat ystafell ynghyd â'r falfiau rheiddiadur thermostatig, i alluogi'r bwylwr i ddiffodd pan nad oes angen gwres.</p>
16	Rheolydd amser a pharth gwres	<p><b>Rheolyddion gwresogi (rheolydd amser a pharth gwres)</b></p> <p>Dylai'r rheolyddion system wresogi gael eu gwella fel y gall y tymheredd ac amser y gwresogi gael eu gosod yn wahanol mewn rhannau gwahanol o'ch cartref; bydd hyn yn lleihau'r swm o ynni sydd yn cael ei ddefnyddio ac yn lleihau biliau tanwydd. Er enghraifft, mae'n bosibl cael tymheredd oerach yn yr ystafelloedd gwely nag yn y lolfa os bydd drysau mewnol yn cael eu cadw ar gau, a chael cyfnod gwresogi hirach yn y lolfa. Dylid gofyn i beiriannydd gwresogi cymwys wneud y gwaith yma.</p>

Rhif Argym.	Argymhelliad (tudalen 4)	Testun yr Argymhelliad (tudalen 5)
17	Uwchraddio rheolyddion gwresogi	<p><b>Rheolyddion gwresogi (rhaglennydd a thermostat ystafell)</b></p> <p>Byddai system wresogi aer poeth yn elwa o ychwanegu rhaglennydd a thermostat ystafell fel ei fod yn diffodd pan nad oes angen gwres; bydd hyn yn lleihau'r swm o ynni a ddefnyddir ac yn lleihau biliau tanwydd. Mynnwch fod y thermostat yn diffodd y llogswr aer poeth ynghyd â'r chwythwr. Gall rhaglennydd modern ddarparu rhaglenni amser gwahanol ar gyfer gwres a dŵr poeth, gan alluogi cyfnodau amser gwahanol i gael eu gosod ar gyfer pob un; gall rhaglennydd saith niwrnod hefyd alluogi patrymau gwresogi gwahanol i gael eu gosod ar gyfer wythnos waith, penwythnos a gwyliau. Dylid gofyn i beiriannydd gwresogi cymwys wneud y gwaith yma.</p>
18	Uwchraddio rheolyddion gwresogi	<p><b>Rheolyddion gwresogi (thermostat ystafell)</b></p> <p>Byddai system aer poeth yn y cartref yma yn elwa o ychwanegu thermostat ystafell fel ei fod yn diffodd pan nad oes angen gwres; bydd hyn yn lleihau'r swm o ynni a ddefnyddir ac yn lleihau biliau tanwydd. Mynnwch fod y thermostat yn diffodd y llogswr aer poeth ynghyd â'r chwythwr. Dylid gofyn i beiriannydd gwresogi cymwys wneud y gwaith yma.</p>
19	Gwresogi dŵr solar	<p><b>Gwresogi dŵr solar</b></p> <p>Bydd panel gwresogi dŵr solar, sydd fel arfer yn cael ei osod ar y to, yn defnyddio'r haul i ragboethi'r cyflenwad dŵr poeth. Bydd hyn yn gostwng y galw ar y system wresogi i ddarparu dŵr poeth yn arwyddocaol a chan hynny yn arbed tanwydd ac arian. Mae gan y Solar Trade Association wybodaeth gyfredol am osodwyr lleol ac unrhyw grant a all fod ar gael.</p>
20	Cyfnewid y bwyler am fwyler cyddwyso Band A	<p><b>Bwyler cyddwyso Band A</b></p> <p>Mae bwyler cyddwyso yn fwy effeithlon na mathau eraill o fwyleri, gan olygu y bydd yn llosgi llai o danwydd i wresogi'r adeilad yma. Mae'r gwelliant yma yn fwyaf priodol pan fydd angen newid neu atgyweirio'r bwyler gwres canolog presennol, ond gall fod yna amgylchiadau eithriadol sydd yn gwneud hyn yn anymarferol. Mae bwyleri cyddwyso angen draen ar gyfer y cyddwysiad sydd yn cyfyngu ar eu lleoliad; cofiwch hyn wrth ystyried ail-ddylunio'r ystafell sydd yn cynnwys y bwyler presennol er efallai y byddwch yn cadw'r bwyler yma am y tro (wrth ailwampio'r gegin). Mae Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'r gwaith yma, felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol oni bai bod y sawl sydd yn gosod wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac o'r herwydd yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi cymwysedig esbonio'r opsiynau i chi.</p>

Rhif Argym.	Argymhelliad (tudalen 4)	Testun yr Argymhelliad (tudalen 5)
21	Cyfnewid bwylwr am fwylwr cyddwyso Band A	<p><b>Bwylwr cyddwyso Band A</b></p> <p>Mae bwylwr cyddwyso yn fwy effeithlon na mathau eraill o fwyleri, gan olygu y bydd yn llosgi llai o danwydd i wresogi'r adeilad yma. Mae'r gwelliant yma yn fwyaf priodol pan fydd angen newid neu atgyweirio'r bwylwr gwres canolog presennol, ond gall fod yna amgylchiadau eithriadol sydd yn gwneud hyn yn anymarferol. Mae bwyleri cyddwyso angen draen ar gyfer y cyddwysiad sydd yn cyfyngu ar eu lleoliad; cofiwch hyn wrth ystyried ail-ddylunio'r ystafell sydd yn cynnwys y bwylwr presennol er efallai y byddwch yn cadw'r bwylwr yma am y tro (wrth ailwampio'r gegin). Mae Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'r gwaith yma, felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol oni bai bod y sawl sydd yn gosod wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac o'r herwydd yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi cymwysedig esbonio'r opsiynau i chi.</p>
22	Cyfnewid bwylwr am fwylwr biomas	<p><b>Bwylwr biomas</b></p> <p>Mae bwyleri modern yn llosgi'n lanach ac yn fwy effeithlon na'r bwylwr yn y cartref yma ac yn costio llai i'w rhedeg. Mae bwylwr biomas yn llosgi tanwydd adnewyddadwy megis pelennau neu foncyffion coed ac felly yn llai niweidiol i'r amgylchedd. Mae'r gwelliant yma fwyaf priodol pan fydd angen newid neu atgyweirio'r system wresogi bresennol. Mae Rheoliadau Adeiladu a darpariaethau dan y Ddeddf Aer Glân yn berthnasol i'r gwaith yma, felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol, oni bai bod y sawl sydd yn gosod wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd cymwysedig esbonio'r opsiynau i chi.</p>
23	Ffwrn pelennau coed gyda bwylwr a rheiddiaduron	<p><b>Ffwrn biomas gyda bwylwr</b></p> <p>Mae ffwrn tanwydd solet wedi ei gloi i mewn (sydd hefyd yn cael ei alw'n wresogydd ystafell) bron ddwywaith yn fwy effeithlon na thân agored. Mae gwresogyddion modern gyda drws gwydr yn lân, yn hawdd eu defnyddio ac yn darparu ffynhonnell wres ddeniadol. Mae bwylwr biomas yn llosgi tanwydd adnewyddadwy megis pelennau coed ac o'r herwydd mae yn llawer llai niweidiol i'r amgylchedd. Mae'r gwelliant yma yn fwyaf priodol pan fydd angen atgyweirio neu gyfnewid y system wresogi bresennol. Mae Rheoliadau Adeiladu a darpariaethau dan y Ddeddf Aer Glân yn berthnasol i'r gwaith yma, felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol, oni bai bod y sawl sydd yn gosod wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup> ac yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd cymwysedig esbonio'r opsiynau i chi.</p>

Rhif Argym.	Argymhelliad (tudalen 4)	Testun yr Argymhelliad (tudalen 5)
24	Gwresogyddion stôr â chymorth ffan a silindr trochi deuol	<p><b>Gwresogyddion stôr â chymorth ffan</b></p> <p>Mae gwresogyddion stôr modern yn llai ac yn haws eu rheoli na'r hen fath sydd yn yr adeilad. Gofynnwch am ddyfynbris am wresogydd â chymorth ffan gyda rheolydd gwefrau awtomatig newydd. Gall silindr trochi deuol, y gellir ei osod ar yr un pryd, ddarparu dŵr poeth rhatach na'r system sydd wedi ei gosod yn barod. Gan y dylai gosodiadau fod yn unol â rheoliadau cyfredol yn ymwneud â gwifro trydanol, dim ond trydanwr cymwysedig ddylai wneud y gwaith gosod. Mae Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol ar gyfer y gwaith yma, felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol, oni bai bod y sawl sydd yn gwneud y gwaith gosod wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac felly'n medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi trydanol cymwysedig esbonio'r opsiynau, a fydd efallai yn cynnwys newid i ddulliau eraill o wresogi trydanol.</p>
25	Gwresogyddion stôr â chymorth ffan	<p><b>Gwresogyddion stôr â chymorth ffan</b></p> <p>Mae gwresogyddion stôr modern yn llai ac yn haws eu rheoli na'r hen fath sydd yn yr adeilad. Gofynnwch am ddyfynbris am wresogydd â chymorth ffan gyda rheolydd gwefrau awtomatig newydd. Gan y dylai gosodiadau fod yn unol â rheoliadau cyfredol yn ymwneud â gwifro trydanol, dim ond trydanwr cymwysedig ddylai wneud y gwaith gosod. Mae Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol ar gyfer y gwaith yma, felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol, oni bai bod y sawl sydd yn gwneud y gwaith gosod wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi cymwysedig esbonio'r opsiynau, a fydd efallai yn cynnwys newid i ddulliau eraill o wresogi trydanol.</p>
26	Cyfnewid uned aer poeth	<p><b>Cyfnewid uned aer poeth</b></p> <p>Mae uned aer poeth modern yn llawer mwy effeithlon na'r hen fathau, sydd yn golygu y bydd yn llosgi llai o danwydd i wresogi ac (os bydd wedi ei osod) ar gyfer y system ddŵr poeth yn eich adeilad. Mae'r gwelliant hwn yn fwyaf addas pan fo'r uned aer poeth gwres canolog presennol neu'r gwasanaeth dŵr poeth angen eu hatgyweirio neu eu cyfenwid. Mae Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'r gwaith hwn, felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol oni bai bod y sawl sydd yn gosod wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac o'r herwydd yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi cymwysedig esbonio'r opsiynau i chi.</p>
27	HEB EI DDEFNYDDIO	HEB EI DDEFNYDDIO

Rhif Argym.	Argymhelliad (tudalen 4)	Testun yr Argymhelliad (tudalen 5)
28	Bwyler cyddwyso olew gyda rheiddiaduron	<p><b>Bwyler cyddwyso olew Band A</b></p> <p>Mae bwyleri cyddwyso yn fwy effeithlon na mathau eraill o offer gwresogi, sydd yn golygu y byddant yn llosgi llai o olew i wresogi'r adeilad. Mae'r gwelliant hwn yn fwyaf addas pan fo'r uned aer poeth presennol angen ei hatgyweirio neu ei chyfnwid. Mae Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'r gwaith hwn ac yn gofyn bod yn rhaid i fwyleri olew fod o'r math cyddwyso oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol, felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol oni bai bod y sawl sydd yn gosod wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac o'r herwydd yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi cymwysedig esbonio'r opsiynau i chi.</p>
29	Newid system wresogi i fwyler cyddwyso nwy Band A	<p><b>Bwyler cyddwyso nwy Band A</b></p> <p>Bydd newid y system wresogi i ddefnyddio bwyler nwy prif gyflenwad sydd yn gwresogi gofod a dŵr yn arbed arian, gan fod defnyddio nwy prif gyflenwad dipyn yn rhatach na'r tanwydd sydd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Gall bwyler cyddwyso fod yn llawer mwy effeithlon na mathau eraill o fwyleri sydd yn golygu y bydd yn llosgi llai o danwydd i wresogi'r adeilad, ond gall fod rhai amgylchiadau eithriadol sydd yn gwneud hyn yn anymarferol. Mae angen draen ar fwyleri cyddwyso ar gyfer y cyddwysiad sydd yn cyfyngu ar eu lleoliad; cofiwch hyn wrth ystyried ail-ddylunio'r ystafell sydd yn cynnwys y bwyler presennol er efallai y byddwch yn cadw'r bwyler yma am y tro (er enghraifft wrth ail-wneud y gegin). Mae'r gwelliant yn fwyaf addas pan fo'r system wresogi bresennol angen ei hatgyweirio neu ei chyfnwid. Mae Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'r gwaith hwn, felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol oni bai bod y sawl sydd yn gosod wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac o'r herwydd yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi cymwysedig esbonio'r opsiynau i chi.</p>

Rhif Argym.	Argymhelliad (tudalen 4)	Testun yr Argymhelliad (tudalen 5)
30	Gwresogyddion stôr â chymorth ffan a silindr trochi deuol	<p><b>Gwresogyddion stôr â chymorth ffan</b></p> <p>Mae gwresogyddion stôr modern llawer yn rhatach i'w rhedeg na'r system wresogi uniongyrchol weithredol, pan fydd y trydan ddrutaf sydd yn yr adeilad. Mae angen cyflenwad trydan graddfa-ddeuol i gyflenwi'r trydan allfrig y mae'r gwresogyddion yma yn ei ddefnyddio; gellir cael gafael ar hyn yn hawdd drwy gysylltu â'r cyflenwr trydan. Gofynnwch am ddyfynbris am wresogyddion â chymorth ffan gyda rheolydd gwefrau awtomatig. Bydd silindr trochi deuol, a all gael ei osod ar yr un pryd, yn darparu dŵr poeth dipyn yn rhatach na'r system sydd wedi ei gosod ar hyn o bryd. Gan y dylai gosodiadau fod yn unol â'r safonau gwifro cenedlaethol, dim ond trydanwr cymwysedig ddylai fod yn gosod. Mae Rheoliadau Adeiladu yn gymwys i'r gwaith, felly dylid hysbysu'r adran Rheoli Adeiladu oni bai bod y sawl sydd yn gosod wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac o'r herwydd yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi trydanol cymwysedig esbonio'r opsiynau i chi, a all hefyd gynnwys newid i ffurfiau eraill o wresogi trydanol.</p>
31	Gwresogyddion stôr â chymorth ffan	<p><b>Gwresogyddion stôr â chymorth ffan</b></p> <p>Mae gwresogyddion stôr modern llawer yn rhatach i'w rhedeg na'r system wresogi uniongyrchol weithredol, pan fydd trydan ddrutaf sydd yn yr adeilad. Mae angen cyflenwad trydan graddfa-ddeuol i gyflenwi'r trydan allfrig y mae'r gwresogyddion yma yn ei ddefnyddio; gellir cael gafael ar hyn yn hawdd drwy gysylltu â'r cyflenwr ynni. Gofynnwch am ddyfynbris am wresogyddion â chymorth ffan gyda rheolydd gwefr awtomatig. Gan y dylai gosodiadau fod yn unol â'r safonau gwifro cenedlaethol, dim ond trydanwr cymwysedig ddylai fod yn gosod. Mae Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'r gwaith hwn, felly dylid hysbysu'r adran Rheoli Adeiladu oni bai bod y sawl sydd yn gosod wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac o'r herwydd yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi trydanol cymwysedig esbonio'r opsiynau i chi, a all hefyd gynnwys newid i ffurfiau eraill o wresogi trydanol.</p>

Rhif Argym.	Argymhelliad (tudalen 4)	Testun yr Argymhelliad (tudalen 5)
32	Newid system wresogi i fwyler cyddwyso nwy Band A	<p><b>Bwyler cyddwyso nwy Band A</b></p> <p>Bydd newid y system wresogi i ddefnyddio bwyler nwy prif gyflenwad sydd yn gwresogi gofod a dŵr yn arbed arian, gan fod defnyddio nwy prif gyflenwad yn rhatach na'r tanwydd sydd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Mae bwyler cyddwyso yn llawer mwy effeithlon na mathau eraill o fwyleri, sydd yn golygu y bydd yn llosgi llai o danwydd i wresogi'r adeilad, ond gall fod amgylchiadau eithriadol sydd yn gwneud hyn yn anymarferol. Mae angen draen ar fwyleri cyddwyso ar gyfer y cyddwysiad sydd yn cyfyngu ar eu lleoliad. Cofiwch hyn wrth ystyried ail-ddylunio'r ystafell sydd yn cynnwys y bwyler presennol er efallai y byddwch yn cadw'r bwyler yma am y tro (wrth ailwampio'r gegin). Mae'r gwelliant hwn yn fwyaf addas pan fydd y system wresogi bresennol angen ei hatgyweirio neu ei chyfnewid. Mae Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'r gwaith yma, felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol oni bai bod y sawl sydd yn gosod wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac o'r herwydd yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi cymwysedig esbonio'r opsiynau i chi.</p>
33	HEB EI DDEFNYDDIO	HEB EI DDEFNYDDIO
34	Paneli solar ffotofoltäig, 2.5 kWp	<p><b>Paneli solar ffotofoltäig</b></p> <p>Mae system solar PV yn un sydd yn trosi goleuni yn drydan drwy gyfrwng paneli wedi eu gosod ar y to heb unrhyw wastraff nag allyriadau. Caiff y trydan hwn ei ddefnyddio drwy'r cartref yn union yn yr un modd â thrydan sydd wedi ei brynu oddi wrth gyflenwr ynni. Mae gan y British Photovoltaic Association wybodaeth gyfredol ar osodwyr lleol sydd yn drydanwyr cymwysedig ac ar unrhyw grant sydd ar gael. Efallai bod cyfyngiadau cynllunio yn bodoli mewn rhai cymdogaethau a dylech wirio hyn gyda'ch awdurdod lleol. Mae Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'r gwaith hwn, felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol oni bai bod y sawl sydd yn gosod wedi ennill cymwysterau priodol ac wedi ei gofrestru felly gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac o'r herwydd yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu.</p>
35	Goleuo ynni isel ar gyfer yr holl osodiadau sefydlog	<p><b>Goleuo ynni isel</b></p> <p>Mae cyfnewid bylbiau golau traddodiadol am fylbiau a argymhellir am arbed ynni yn lleihau costau dros hyd oes y bwlb, ac maent yn para hyd at 12 gwaith yn fwy na bylbiau cyffredin. Ystyriwch hefyd ddewis ffitiadau golau ynni isel wrth ailaddurno; cysylltwch â'r Lighting Association er mwyn cael gwybod am eich siop leol sydd yn gwerthu ffitiadau Cynllun Goleuo Domestig Ynni Effeithlon.</p>

Rhif Argym.	Argymhelliad (tudalen 4)	Testun yr Argymhelliad (tudalen 5)
36	Cyfnewid uned wresogi am uned gyddwyso Band A	<p><b>Gosod uned wresogi gyddwyso Band A</b></p> <p>Gall uned gyddwyso fod yn llawer mwy effeithlon na ffurfiau eraill, sydd yn golygu y bydd yn llosgi llai o danwydd i wresogi'r adeilad hwn, ond gall fod amgylchiadau eithriadol sydd yn gwneud hyn yn anymarferol. Mae angen draen ar fwyleri cyddwyso ar gyfer y cyddwysiad sydd yn cyfyngu eu lleoliad. Cofiwch hyn wrth i chi ystyried ail-ddylunio'r ystafell sydd yn cynnwys y bwylers presennol er efallai y bydd yn cael ei gadw am y tro (er enghraifft ailwampio'r gegin). Mae'r gwelliant hwn yn fwyaf addas pan fo'r uned gwres canolog bresennol angen ei thrwsio neu ei hadnewyddu. Mae Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'r gwaith hwn, felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol oni bai bod y sawl sydd yn gosod wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac o'r herwydd yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi cymwysedig esbonio'r opsiynau i chi.</p>
37	Gosod bwylers cyddwyso Band A	<p><b>Gosod bwylers cyddwyso Band A (ar wahân i'r popty estynedig)</b></p> <p>Gall bwylers cyddwyso fod yn llawer mwy effeithlon na mathau eraill o fwyleri, sydd yn golygu y bydd yn llosgi llai o danwydd i wresogi'r adeilad. Argymhellir gosod bwylers cyddwyso ar wahân, yn annibynnol o'r popty estynedig, ond gall fod amgylchiadau eithriadol sydd yn gwneud hyn yn anymarferol. Mae angen draen ar fwyleri cyddwyso ar gyfer y cyddwysiad sydd yn cyfyngu eu lleoliad. Mae Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'r gwaith hwn, felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol oni bai bod y sawl sydd yn gosod wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac o'r herwydd yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi cymwysedig esbonio'r opsiynau i chi.</p>
38	Gosod bwylers cyddwyso Band A	<p><b>Gosod bwylers cyddwyso Band A (ar wahân i'r popty estynedig)</b></p> <p>Gall bwylers cyddwyso fod yn llawer mwy effeithlon na mathau eraill o fwyleri, sydd yn golygu y bydd yn llosgi llai o danwydd i wresogi'r adeilad. Argymhellir gosod bwylers cyddwyso ar wahân, yn annibynnol o'r popty estynedig, ond gall fod amgylchiadau eithriadol sydd yn gwneud hyn yn anymarferol. Mae angen draen ar fwyleri cyddwyso ar gyfer y cyddwysiad sydd yn cyfyngu eu lleoliad. Mae Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'r gwaith hwn, felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol oni bai bod y sawl sydd yn gosod wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac o'r herwydd yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi cymwysedig esbonio'r opsiynau i chi.</p>

Rhif Argym.	Argymhelliad (tudalen 4)	Testun yr Argymhelliad (tudalen 5)
39	Stôf pelenni pren gyda bwylwr a rheiddiaduron	<p><b>Stôf biomas gyda bwylwr</b>  Mae stôf biomas (sydd hefyd yn cael ei alw yn wresogydd ystafell) yn llosgi tanwydd adnewyddadwy megis pelenni pren ac o'r herwydd yn llai niweidiol i'r amgylchedd na'r gwresogydd ystafell tanwydd solet yn y cartref hwn. Mae'r gwelliant hwn yn fwyaf perthnasol pan fo'r system wresogi bresennol angen ei hatgyweirio neu ei hadnewyddu. Mae Rheoliadau Adeiladu a darpariaethau o dan Ddeddf Aer Glân yn berthnasol i'r gwaith hwn felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol oni bai bod y sawl sydd yn gosod wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac o'r herwydd yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi cymwysedig esbonio'r opsiynau i chi.</p>
40	Newid gwresogyddion ystafell i fwylwr cyddwyso Band A	<p><b>Bwylwr cyddwyso Band A</b>  Bydd system wres canolog lawn yn defnyddio bwylwr cyddwyso yn gwresogi gofod a dŵr mewn dull mwy effeithlon na gwresogyddion ystafell nwy, sydd yn golygu y bydd yn llosgi llai o danwydd i wresogi'r adeilad hwn, ond gall fod amgylchiadau eithriadol sydd yn gwneud hyn yn anymarferol. Mae angen draen ar fwylwr cyddwyso ar gyfer y cyddwysiad sydd yn cyfyngu eu lleoliad. Cofiwch hyn wrth i chi ystyried ail-ddylunio'r ystafell sydd yn cynnwys y bwylwr presennol er efallai y bydd yn cael ei gadw am y tro (er enghraifft ailwampio'r gegin). Mae Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'r gwaith hwn, felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol oni bai bod y sawl sydd yn gosod yr uned wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac o'r herwydd yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi profiadol esbonio'r opsiynau i chi.</p>
41	Newid gwresogyddion ystafell i fwylwr cyddwyso Band A	<p><b>Bwylwr cyddwyso Band A</b>  Bydd system wres canolog lawn yn defnyddio bwylwr cyddwyso yn gwresogi gofod a dŵr mewn dull mwy effeithlon na gwresogyddion ystafell nwy, sydd yn golygu y bydd yn llosgi llai o danwydd i wresogi'r adeilad hwn, ond gall fod amgylchiadau eithriadol sydd yn gwneud hyn yn anymarferol. Mae angen draen ar fwylwr cyddwyso ar gyfer y cyddwysiad sydd yn cyfyngu eu lleoliad. Cofiwch hyn wrth i chi ystyried ail-ddylunio'r ystafell sydd yn cynnwys y bwylwr presennol er efallai y bydd yn cael ei gadw am y tro (er enghraifft ailwampio cegin). Mae Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'r gwaith hwn, felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol oni bai bod y sawl sydd yn gosod yr uned wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac o'r herwydd yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi cymwysedig esbonio'r opsiynau i chi.</p>

Rhif Argym.	Argymhelliad (tudalen 4)	Testun yr Argymhelliad (tudalen 5)
42	Cyfnewid uned wresogi am uned gyddwyso prif gyflenwad nwy Band A	<p><b>Uned wresogi gyddwyso Band A</b></p> <p>Bydd newid y system wresogi i ddefnyddio uned wresogi prif gyflenwad nwy yn arbed arian, gan fod nwy prif gyflenwad dipyn yn rhatach ar hyn o bryd na'r tanwydd sydd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Mae uned gyddwyso yn llawer mwy effeithlon na mathau eraill, sydd yn golygu y bydd yn llosgi llai o danwydd i wresogi'r adeilad hwn, ond gall fod amgylchiadau eithriadol sydd yn gwneud hyn yn anymarferol. Mae angen draen ar unedau cyddwyso ar gyfer y cyddwysiad sydd yn cyfyngu eu lleoliad. Cofiwch hyn wrth i chi ystyried ail-ddylunio'r ystafell sydd yn cynnwys y bwyler presennol er efallai y bydd yn cael ei gadw am y tro (er enghraifft ailwampio'r gegin). Mae'r gwelliant hwn yn fwyaf addas pan fo'r uned gwres canolog bresennol angen ei thrwsio neu ei hadnewyddu. Mae Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'r gwaith hwn, felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol oni bai bod y sawl sydd yn gosod wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac o'r herwydd yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi cymwysedig esbonio'r opsiynau i chi.</p>
43	Bwyler cyddwyso olew gyda rheiddiaduron	<p><b>Bwyler cyddwyso olew Band A</b></p> <p>Mae bwyleri cyddwyso olew yn llawer mwy effeithlon na mathau eraill o offer gwresogi, sydd yn golygu y bydd yn llosgi llai o danwydd i wresogi'r adeilad, ond gall fod amgylchiadau eithriadol sydd yn gwneud hyn yn anymarferol. Mae angen draen ar fwyleri cyddwyso ar gyfer y cyddwysiad sydd yn cyfyngu eu lleoliad. Cofiwch hyn wrth i chi ystyried ail-ddylunio'r ystafell sydd yn cynnwys y bwyler presennol er efallai y bydd yn cael ei gadw am y tro (er enghraifft ail-wneud cegin). Dyma'r opsiwn gorau pan fo'r uned awyr cynnes bresennol angen ei thrwsio neu ei hadnewyddu. Mae Rheoliadau Adeiladu yn gymwys i'r gwaith hwn, felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol oni bai bod y sawl sydd yn gosod wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac o'r herwydd yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gofynnwch i beiriannydd gwresogi cymwysedig esbonio'r opsiynau i chi.</p>

<b>Rhif Argym.</b>	<b>Argymhelliad (tudalen 4)</b>	<b>Testun yr Argymhelliad (tudalen 5)</b>
44	Tyrbin gwynt	<p><b>Tyrbin gwynt</b></p> <p>Mae tyrbin gwynt yn darparu trydan o ynni'r gwynt. Caiff y trydan hwn ei ddefnyddio drwy'r cartref yn union yn yr un modd â thrydan sydd wedi ei brynu oddi wrth gyflenwr ynni. Mae gan y British Wind Energy Association wybodaeth gyfredol am gyflenwyr systemau gwynt graddfa fach ac unrhyw grant sydd ar gael. Efallai bod cyfyngiadau cynllunio yn bodoli a dylech wirio hyn gyda'r awdurdod lleol. Mae Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'r gwaith hwn, felly dylid hysbysu adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol oni bai bod y sawl sydd yn gosod wedi ennill cymhwyster priodol ac wedi ei gofrestru gyda chynllun person cymwys<sup>1</sup>, ac o'r herwydd yn medru ardystio'r gwaith ei hunan er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Nid yw tyrbinau gwynt yn addas ar gyfer pob math o eiddo. Mae effeithiolrwydd y system yn dibynnu ar gyflymder y gwynt yn lleol a phresenoldeb rhwystrau cyfagos, a dylai'r safle gael ei arolygu gan osodwr achrededig.</p>

<sup>1</sup> Am wybodaeth ar gynlluniau personau cymwys rhowch 'existing competent person schemes' i mewn i beiriant chwilio'r rhyngwyd neu cysylltwch â 'chanolfan gynghori leol yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar 0800 512 012.